Flax, <i>llin</i> .	Fume, <i>agerdd</i> .
Flee, <i>ffoi</i> .	Funeral, <i>angladd</i> .
Fleece, <i>cnu</i> .	Furniture, <i>dodrefn</i> .
Flimsey, <i>gwagsaw</i> .	Fuss, <i>dadwrdd</i> .
Flint, <i>callestr</i> .	Future, <i>rhagllaw</i> .
Flock, <i>diadell</i> .	
Flood, <i>llif</i> .	
Floor, <i>llawr</i> .	
Flour, <i>peilliad</i> .	
Flower, <i>blodewyn</i> .	
Flowery, <i>blodeuog</i> .	
Foam, <i>ewyn</i> .	
Foe, <i>gelyn</i> .	
Fog, <i>niwl</i> .	
Fool, <i>ynfyd-ddyn</i> .	
Foolish, <i>annoeth</i> .	
Foot, <i>troed</i> .	
Foppish, <i>coegfatch</i> .	
Forbear, <i>cyd-ddwyn</i> .	
Forbid, <i>gwahardd</i> .	
Force <i>grym</i> .	
Forehead, <i>talcen</i> .	
Foreman, <i>blaenor</i> .	
Foresee, <i>rhagweled</i> .	
Forest, <i>coedwig</i> .	
Forfeit, <i>diruy</i> .	

**G**

Gain, <i>elw</i> .
Gallon, <i>galwyn</i> .
Gardener, <i>garddwr</i> .
Gate, <i>porth</i> .
Gay, <i>gwych</i> .
Give, <i>rhoddi</i> .
Giver, <i>rhoddwr</i> .
Glass, <i>gwydr</i> .
Glove, <i>maneg</i> .
Goat, <i>gafr</i> ,
God, <i>Duw</i> .
Goddess, <i>duwies</i> .
Godliness, <i>duwioldeb</i> .
Godly, <i>duwiol</i> .
Gold, <i>aur</i> .
Good, <i>daioni</i> .
Gospel, <i>efengyl</i> .
Grave, <i>bedd</i> .

Green, *gwyrdd.*  
 Grumble, *grwgnač.*  
 Guilty, *euog,*  
 Guiltless, *dieuog.*

**H**

Hair, *gwallt.*  
 Hairy, *gwalltogač.*  
 Half, *hanner.*  
 Hall, *neuadd.*  
 Happy, *dedwydd.*  
 Hard, *caled.*  
 Harp, *telyn.*  
 Harrow, *oged.*  
 Hash, *briwfyd.*  
 Haste, *brys.*  
 Hat, *het.*  
 Hatchet, *bwyell.*  
 Hay, *gwair.*  
 Head, *pen.*  
 Heal, *iachau.*  
 Health, *iechyd.*  
 Heel, *sawdl.*  
 Heifer, *anner.*  
 Height, *uchder.*  
 Heir, *etifedd.*  
 Heiress, *etifeddes.*  
 Heirless, *dietifedd.*  
 Hell, *uffern.*  
 Hellish, *uffernol.*  
 Help, *cymorth.*  
 Helpless, *digymorth.*  
 Hen, *iar.*  
 Hew, *naddu.*  
 Hill, *bryn.*  
 Hinder, *rhwystro.*  
 Hint, *amnaid.*  
 Hire, *cyflog.*  
 History, *hanes.*  
 Hog, *mochyn.*  
 Horn, *corn.*  
 Horse, *ceffyl.*  
 Hospital, *ysbytty.*  
 Hot, *twym.*  
 Hour, *awr.*  
 Husband, *gwr.*  
 Hymn, *emyn.*  
 Hypocrisy, *rhagrith.*

I  
 Ice, *ia.*  
 Icy, *rhewllyd.*  
 Idle, *segur.*  
 Idler, *segurwr.*  
 Idol, *delw.*  
 Image, *eilun.*  
 Impartial, *diduedd.*  
 Imposter, *twyllwr.*  
 Imprison, *carcharu.*  
 Improve, *diwygio.*  
 Incline, *tueddu.*  
 Incorrect, *anghywir.*  
 Increase, *cynnydd.*  
 Indeed, *yn wir.*  
 Infancy, *mabandod.*  
 Infant, *maban.*  
 Infect, *llygru.*  
 Infirm, *gwan.*  
 Infirmary, *clafdy.*  
 Inflame, *ennyn.*  
 Inform, *hysbysu.*  
 Inherit, *etifeddu.*  
 Inhuman, *creulon.*  
 Injure, *niweidio.*  
 Ink, *inc.*  
 Inspect, *arolygu.*  
 Inspector, *arolygwr.*  
 Instead, *yn lle.*  
 Instinct, *greddf.*  
 Insure, *diogelu.*  
 Intellect, *synwyr.*  
 Intelligent, *deallus.*  
 Intend, *burriadu.*  
 Inter, *claddu.*  
 Intercede, *eiriol.*  
 Intercessor, *eiriolwr.*  
 Interest, *budd, elw.*  
 Interrogate, *holi.*  
 Intoxicate, *meddwi.*  
 Invite, *gwahodd.*  
 Iron, *haiarn.*  
 Island, *ynys.*  
 Islander, *ynyswr.*  
 Ivy, *eiddiorwg.*

**J**

Jest, *cellwair.*  
 Jew, *Iuddeuw.*

Job, *gorchlwyd*.  
 Joint, *cymal*.  
 Journey, *taith*.  
 Joy, *llawenydd*.  
 Joyful, *llawen*.  
 Judge, *barnwr*.  
 Jump, *naid*.  
 Jury, *rheithwyr*.

**K**

Kick, *troediad*.  
 Kind, *hynaws*.  
 Kindness, *cymwynas*.  
 Kindred, *ceraint*.  
 Kine, *gwartieg*.  
 King, *brenin*.  
 Kingdom, *teyrnas*.  
 Kiss, *cusan*.  
 Kitchen, *cegin*.  
 Kite, *barcud*.  
 Knave, *dyhiryn*.  
 Knavery, *dyhirwch*.  
 Knee, *penlin*.  
 Kneel, *penlinio*.  
 Knife, *cyllell*.  
 Knob, *cnap*.  
 Knot, *cwlwm*.

**L**

Labour, *llafur*.  
 Labourer, *gweithiwr*.  
 Lace, *ysnoden*.  
 Lack, *eisieu*.  
 Lad, *bachgen*.  
 Ladder, *ysgol*.  
 Lady, *boneddiges*.  
 Lake, *lyn*.  
 Lamb, *oen*.  
 Lame, *cloff*.  
 Land, *tir*.  
 Landlord, *meistr tir*.  
 Language, *iaith*.  
 Law, *cyfraith*.  
 Lawful, *cyfreithlon*.  
 Lead, *plwm*.  
 Leader, *arweinydd*.  
 Leak, *agen*.  
 Learn, *dysgu*.  
 Learner, *dysgwr*.

Learned, *dysgedig*.  
 Leather, *lledr*.  
 Leg, *coes*.  
 Length, *hyd*.  
 Liar, *celwyddwr*.  
 Liberty, *rhyddid*.  
 Life, *bywyd*.  
 Light, *goleuni*.  
 Limb, *aelod*.  
 Lime, *calc*.  
 Limit, *terfyn*.  
 Line, *llinell*.  
 Linen, *lliaín*.  
 Lion, *llew*.  
 Lip, *gwefus*.  
 Little, *ychydig*.  
 Load, *llwyth*.  
 Loan, *benthyg*.  
 Lock, *clo*.  
 Look, *edrychiad*.  
 Lord, *arglwydd*.  
 Love, *cariad*.  
 Low, *isel*.  
 Lungs, *ysgyfaint*.

**M**

Mad, *ynfyd*.  
 Maid, *geneth*.  
 Male, *gwryw*.  
 Malice, *cenfigen*.  
 Malt, *brág*.  
 Man, *dyn*.  
 Mane, *mwng*.  
 Mansion, *trigfa*.  
 Manure, *tail*.  
 Many, *llawer*.  
 Marble, *mynor*.  
 Mark, *nôd*.  
 Market, *marchnad*.  
 Marriage, *priodas*.  
 Milk, *llaeth*.  
 Mind, *meddwl*.  
 Model, *cynllun*.  
 Money, *arian*.  
 Monkey, *epa*.  
 Mouth, *genau*.  
 Moon, *lleuad*.  
 Morning, *boreu*.

**N**

- Name, *enw*.  
 Near, *agos*.  
 Neck, *gwddf*.  
 Needle, *nodwydd*.  
 Nest, *nyth*.  
 Net, *rhwyd*.  
 New, *newydd*.  
 Night, *nos*.  
 Nine, *naw*.  
 Noise, *sŵn*.  
 Now, *yn awr*.  
 Nurse, *mamaeth*.

**O**

- Oak, *derwen*.  
 Oats, *ceirch*.  
 Obey, *ufyddhau*.  
 Ocean, *cefnfor*.  
 Offence, *trosedd*.  
 Office, *swydd*.  
 Officer, *swyddwr*.  
 Oil, *olew*.  
 Order, *trefn*.  
 Oven, *ffwrn*.

**P**

- Pain, *poen*.  
 Pan, *padell*.  
 Paper, *papyr*.  
 Parents, *rhieni*.  
 Passenger, *teithydd*.  
 Passover, *Pasg*.  
 Pastor, *bugail*.  
 Pavement, *palmant*.  
 Peace, *heddwch*.  
 Peaceable, *heddychol*.  
 Peer, *pendefig*.  
 Peevish, *anniddig*.  
 Pen, *ysgrifell*.  
 Penny, *ceiniog*.  
 Perfect, *perffaith*.  
 Peril, *perygl*.

**Q**

- Quarrel, *amrafael*.  
 Question, *gofyniad*.  
 Quick, *bywiog*.  
 Quiet, *llonydd*.

**R**

- Race, *gyrfa*.  
 Rag, *brat*.  
 Rain, *gwlaw*.  
 Ram, *hwrdd*.  
 Religion, *crefydd*.

**S**

- Sad, *trist*.  
 Saddle, *cyfrwy*.  
 Salt, *halen*.  
 Saviour, *Ceidwad*.  
 School, *ysgol*.  
 Seed, *hâd*.  
 Sense, *synwyr*.  
 Shame, *cywilydd*.  
 Sheep, *dafad*.  
 Sleeve, *llawes*.

**T**

- Table, *bwrdd*.  
 Tail, *cynffon*.  
 Taste, *blâs*.  
 Tax, *treth*.  
 Time, *amser*.  
 Trade, *crefft*.

**U**

- Undress, *diosg*.  
 Uneasy, *anesmwyth*.  
 Unfair, *annheg*.  
 Unfirm, *egwan*.

**V**

- Vain, *ofer*.  
 Valley, *dyffryn*.  
 Value, *gwerth*.  
 Variety, *amrywiaeth*.

**W**

Wages, *cyflod.*

Wales, *Cymru.*

Wall, *mur.*

Want, *diffyg.*

War, *rhyfel.*

Warm, *twym.*

**Y**

Yeast, *burym.*

Youngster, *llencyn.*

**Z**

Zeal, *awyddfryd, sel.*

Zealous, *brwdfrydig.*

Zone, *cylch.*

Zoology, *mildraith.*

## CONVERSATIONS—YMDDIDDANION.

## I.

## DEPARTURE, JOURNEY, &amp;c.

	<i>Ymadawiad, y Daith, &amp;c.</i>
Where is the office ?	<i>Pa le y mae y swyddfa ?</i>
When do we start ?	<i>Pa bryd yr ydym yn cychwyn ?</i>
What is the fare ?	<i>Faint yw y cludlog ?</i>
When do you think we shall arrive ?	<i>Pa bryd yr ydych yn meddwl y cyrhaeddwn ?</i>
Where is the luggage put ?	<i>Yn mha le y dodir y cludgelf ?</i>
Where is our luggage ?	<i>Yn mha le y mae ein cludgelf ?</i>
Are we far from the end of the journey ?	<i>A ydym yn mhell o ben y daith ?</i>
Have you fixed on a hotel ?	<i>A ydych chwi wedi penderfynu ar gwestty ?</i>
Which is the best hotel ?	<i>Pa un yw y gwestty goreu ?</i>
I shall go to this hotel, according to your advice.	<i>Mi a af i'r gwestty yma, ynol eich cyngor.</i>
Have we arrived ?	<i>A ydym wedi cyrhaedd ?</i>
Be as quick as possible, if you please.	<i>Byddwch mor gyflym ag y gellwch, os byddwch cystal.</i>
May I go ?	<i>A allaf fi fyned ?</i>
May we go ?	<i>A allwn ni fyned ?</i>
We go to the hotel in New Street.	<i>Yr ydym yn myned i'r gwestty yn New Street.</i>
Go away ; we do not require your services.	<i>Ewch ymaith ; nid oes arnom eisieu eich gwasanaeth.</i>
Thank you ; I will carry it myself.	<i>Diolch i chwi ; myfi a'i cariaffy hun.</i>
We are going to the house of a friend.	<i>Yr ydym yn myned i dy cyfaill.</i>
Take my things to the hotel.	<i>Cymerwch fy mhethau i'r gwestty.</i>
In what street is it ?	<i>Yn mha heol y mae ef (hi) ?</i>
Show me the way.	<i>Dangoswch y ffordd i mi.</i>
Is there a conveyance ?	<i>A oes yna gerbyd ?</i>
Thank you ; I prefer walking.	<i>Diolch i chwi ; gwell genysf gerdded.</i>
Where is the luggage office ?	<i>Yn mha le y mae swyddfa y cludgelf (luggage office) ?</i>

## II.

## HOTEL.

	Gwesty.
Which is the best hotel?	<i>Pa un yw y gwesty goraf?</i>
Will you be good enough to show me the way?	<i>A fyddwch chwi mor garedig a langos y ffordd i mi?</i>
Where is the door?	<i>In mha le y mae y drws?</i>
I wish to see the landlord.	<i>Yr wyf yn dymuno gweled gŵr y tŷ?</i>
Are you the landlord?	<i>Ai chwi yw gŵr y tŷ?</i>
How do you do, Sir—Madam?	<i>Pa fod yr ydych, Syr—Foneddiges?</i>
I have lodged at your hotel before.	<i>Yr wyf wedi bod yn aros yn eich ty o'r blaen.</i>
I am very glad to return to your hotel.	<i>Y mae yn dda genyf ddyfod i'ch ty eilwaith.</i>
We are glad to come to you again.	<i>Y mae yn dda genym ddyfod atoch eto.</i>
Can you accommodate us at present?	<i>A oes genych le i ni yn bresenol?</i>
Can you recommend me to another hotel?	<i>A ellwch chwi ein cymeradwyo i westy arall.</i>
Where is the waiter?	<i>Pa le y mae y gweitiwr.</i>
Have you a bedroom—two bedrooms?	<i>A oes genych ystafell-wely—dwy ystafell wely?</i>
Have you any rooms?	<i>A oes genych ystafelloedd?</i>
I should prefer a room which looks out on the street.	<i>Gwell genyf fyddai ystafeli yn gwyn-ebu i'r heol.</i>
Have you a room which looks out on the court?	<i>A oes genych ystafell yn gwynebu i'r cwrt.</i>
I wish to be as quiet as possible.	<i>Yr wyf yn dymuno bod mor dawel ag y byddo yn bosibl.</i>
Can you give me a bed?	<i>A ellwch chwi roddi gwely i mi?</i>
What do you charge a day for a bedroom?	<i>Faint yw eich pris y dydd am ystafell wely?</i>
Let me see a bedroom, if you please.	<i>Gadeuwch i mi weled ystafell wely, os gwelwch yn dda.</i>
Have you a double-bedded room?	<i>A oes genych ystafell a dau wely ynddi?</i>
We require four beds.	<i>Mae arnom eisieu pedwar o welyau.</i>
I require a bedroom only.	<i>Nid oes arnaf angen ond ystafell wely yn unig.</i>
I should like a cheaper—a larger—one.	<i>Byddai yn well genyf un rhatach-un mwyl.</i>
I should prefer it higher up—on the third—fourth floor.	<i>Gwell byddai genyf ei chael yn uwch i fyny—ar y trydydd—y pedwerydd llawr.</i>
Show me my room.	<i>Dangoswch i mi fy ystafell.</i>
What is the number of my room?	<i>Pa beth yw rhif fy ystafell?</i>
I am—we are—very tired.	<i>Yr wyf—yr ydym—wedi blino yn fawr.</i>
We had a bad—good—pleasant journey.	<i>Cawsom daith ddrwg—dda—ddy-munol.</i>
Is there any water in my room, and towels?	<i>A oes dwfr yn fy ystafell, a thyweli?</i>
Where is the closet?	<i>Pa le y mae y closet?</i>

My luggage is at the Railway Station; please to send for it.

*Y mae fy luggage yn y Relwê Station, byddwch mor garedig ag anfon am danyst.*

Has my luggage arrived?

*A yw fy nghludgelfi (luggage) wedi dyfod?*

Carry up my things.

*Cariwch fy mhethau i fyny.*

Untie this packet.

*Datodwch y bwndel yma.*

Where have you put our things?

*Yn mha le y dodasoch ein pethau?*

Where is my bag?

*Pa le y mae fy ysgrepan?*

Take it up.

*Cymerwch i fyny.*

Give me a light—candle—if you please.

*Rhoddwch i mi oleu—canwyll—os byddwch mor garedig.*

Bring me my boots—shoes—slippers.

*Dygwch i mi fy motasau—fy esgidiau —fy yslopanau (slippers).*

Give my boots to be cleaned.

*Rhoddwch fy esgidiau i w glanhau.*

Light a fire in my room; I am very cold.

*Goleuwch dän yn fy ystafell; yr wyf yn bur oer.*

Blow—stir the fire.

*Chwythwch—prociwch y tân.*

Is my bed ready?

*A yw fy ngwely yn barod?*

Draw the curtains.

*Cauwch y cyrteni.*

I expected you would have had my room ready by the time I arrived.

*Yr oeddwn yn disgwyl y buasech wedi gwneyd fy ystafell yn barod erbyn fy nyfodiad.*

Are the sheets quite dry?

*A yw y cynfasau yn hollol sych?*

Bring me a glass—a bottle—of drinking water.

*Dygwch i mi wydraid—potelaid—o ddwfr i w yfed.*

Extinguish the candle.

*Diffoddwch y ganwyll.*

I am going out; if any one calls, say I shall be back in an hour.

*Yr wyf yn myned allan; os geiliw rhywun, dywedwch y byddaf yn ol mewn awr.*

I shall be back at nine o'clock at latest.

*Byddaf yn ol am naw o'r gloch yn y man pellaef.*

I shall not return till late—till eleven o'clock.

*Ni ddychwelaf nes y bydd yn hwyrr—hyd un-ar-ddeg o'r gloch.*

Here is the key of my room.

*Dyma agoriad fy ystafell.*

Has the postman been here?

*A fu y llythyr-gludydd (postman) yma?*

Have the letters arrived?

*A yw y llythyrau wedi cyraedd?*

Have I been asked for?

*A fu rhywun yn holi am danaf?*

Has the postman not brought me a letter?

*Oni ddygodd y llythyr-gludydd (postman) lythyr i mi?*

Is there a letter for me?

*A oes yna lythyr i mi?*

Has Mr. —— been here?

*A fu Mr. —— yma?*

I shall remain another night.

*Bydd i mi aros noswaith arall.*

We shall probably stay here two—three—days—a week.

*Tebygol yr arhoswn yma ddau—tri—o ddyddiau—wythnos.*

Can you get this mended?

*A ellwch chwi gael trwsio hwn?*

Get it done for me.

*Mynwch gael ei wneyd i mi.*

It is not wanted.

*Nid oes angen am dano.*

It does not matter.—It is of no consequence.

*Nid yw o bwys.—Nid yw o ddim canlyniad.*

Have you a table d'hôte?—At which hour?—What is the price?

*A oes genych giniaw cyhoeddus?—Am ba emser?—Faint yw y pris?*

I shall go to Bangor the day after to-morrow.	<i>Bydd i mi fyned i Fangor y diwrnod ar ol yfory (drenydd).</i>
I shall go this evening by the train at seven o'clock.	<i>Af heno gyda'r train am saith o'r gloch.</i>
I shall start to-morrow morning very early.	<i>Cychwynaf boreu yfory yn bur foreu.</i>
Call us early.	<i>Gelwch arnom yn foreu.</i>
I set off to-morrow morning.	<i>Yrwyf yn cychwynymaith boreu yfory.</i>
Let the bill be made out to-night.	<i>Gwnewch y ddyleb (bill) heno.</i>
Bring me my bill.	<i>Dygwch fy nyleb (bill) i mi.</i>
What is the amount?	<i>Pa faint yw y sum?</i>
Is the service included?	<i>A ydyw yn cynwys y gwasanaeth?</i>
There is an error in the bill.	<i>Y mae gwali yn y ddyleb (bill).</i>
You have charged me with — which I have not had.	<i>Yr ydych wedi fy nyledu am — yr hwn ni chefais.</i>
Will you deduct it?	<i>A wnewch chwi ei dynu allan?</i>
Your prices are very high—very reasonable.	<i>Y mae eich prisiau yn bur uchel—yn bur rhesymol.</i>
Your wine is not good.	<i>Nid yw eich gwin yn dda.</i>
Here is this for the attendance.	<i>Dyma i chwi hyn am y gwasanaeth.</i>
I am going to get up directly.	<i>Yr wyf yn myned i godi ar unwaith.</i>
I shall not be long in dressing.	<i>Ni fyddaf yn hir yn ymwisgo.</i>
No one has awakened me.	<i>Ni ddeffrodd neb fi.</i>
Will you bring my luggage downstairs?	<i>A ddygwch chwi fy nghludgelfi i lawr y grisiau?</i>
I have a carpet-bag; bring it down, if you please.	<i>Y mae genyf garpet-bag; dygwch ef i lawr, os byddwch garediced.</i>
Quick, make haste.	<i>In fuan, brysiwch.</i>
Is there an omnibus going to the train for — ?	<i>A oes cerbyd yn myned at y gerbydres (train) i — ?</i>
Fetch a conveyance with seats for two—four persons.	<i>Cyrchuwch gerbyd gydag eisteddleoedd i ddau—pedwar o bersonau</i>
Call a car directly.	<i>Gelwch am gar ar unwaith.</i>
Run quickly.	<i>Rhedwch yn fuan.</i>
Come back soon.	<i>Deuwch yn ol yn fuan.</i>
I shall start immediately.	<i>Cychwynaf yn uniongyrchol.</i>
Send for a porter.	<i>Anfonwch am gludydd.</i>
Your hotel is very good.	<i>Y mae eich gwesty yn bur dda.</i>
I have been very comfortable.	<i>Yr wyf wedi bod yn hymod gysurus.</i>
I shall be happy to return again.	<i>Bydd yn bleser genyf ddychwelyd yma eto.</i>
I shall be happy to recommend your hotel.	<i>Bydd yn bleser genyf gymeradwyo eich gwesty.</i>
I wish you good day.	<i>Yr wyf yn dymuno dydd da i chwi.</i>
What apartments can you let us have?	<i>Pa ystafelloedd alloch adael i ni eu cael?</i>
We should like to have two—three, &c.—bedrooms, and a sitting-room adjoining, on the second—third, &c.—floor.	<i>Hoffem gael dwy—tair, &amp;c.—o wely—ystafelloedd, ac ystafell-gysylltiol i eistedd ynddi, ar yr ail—trydydd, &amp;c.—llawr.</i>
We wish also a room for a servant.	<i>Yr ydym yn dymuno hefyd cael ystafell i forwyn.</i>

How much a day for the whole ?	<i>Pa faint yn y dydd am y cwbl ?</i>
How much for the service ?	<i>Pa faint am y gwasanaeth ?</i>
Can we have breakfast in our sitting-room to-morrow morning ?	<i>A allwn ni gael boreufwyd yn ein hystafell-eistedd boreu yfory ?</i>

## III.

## RAILWAY.

- Where is the station of the —— Railway ?
- Is the station far from here ?
- Where can we get the tickets ?
- Where am I to ask ?
- Where is the waiting-room ?
- How long must we wait ?
- I want two tickets to ——.
- I want two first-class tickets for ——;—second class;—third class.
- What is the price of second-class tickets ?
- How much have I to pay ?
- When does the train start for —— ?
- When does the first train start to-morrow morning ?
- At what time does the last train start ?
- Please take my luggage to be weighed, and bring me the receipt.
- How much have I to pay ?
- The receipt, if you please.
- Where is my bag—my luggage ?—Here it is.
- Put this under the seat.
- We can take these small things into the carriage, can we not ?
- Where have you put my luggage ?
- Where are the porters ?
- Is there a porter here ?

## Cledrffordd.

- Yn mha le y mae Gorsaf Cledrffordd —— ?*
- A yw yr orsaf (station) yn mhell oddyma ?*
- Yn mha le y gallwn gael y tocynau (tickets) ?*
- Yn mha le yr wyf i ofyn ?*
- Yn mha le y mae y ddisgwyl-ystafell (waiting-room) ?*
- Pa hyd y rhaid i ni aros ?*
- Y mae arnaf eisiau dau docyn (ticket) i ——.*
- Y mae arnaf eisiau dau docyn i'r dosbarth cyntaf i —— ;—yr ail ddosbarth ;—y trydydd dosbarth.*
- Pa faint yw pris tocynau i'r ail ddosparth ?*
- Pa faint sydd genyf i dalu ?*
- Pa bryd y mae y gerbydres yn cychwyn i —— ?*
- Pryd y bydd y gerbydres (train) gyntaf yn cychwyn boreu yfory ?*
- Pa amser y bydd y gerdydres (train) olaf yn cychwyn ?*
- Byddwch cystal a chymeryd fy nghludgelfi i'w pwysa, a dygwch i mi y dderbyneb (receipt).*
- Pa faint sydd genyf i'w dalu ?*
- Y dderbyneb (receipt), os byddwch cystal.*
- Yn mha le y mae fy ysgrepan—fy nghludgelfi ?—Dyma fe.*
- Dodwch hwn o dan yr eisteddle.*
- Gallwn gymeryd y pethau bychain hyn i'r cerbyd, onid allwn ?*
- Yn mha le y dodasoch fy nghludgelfi (luggage) ?*
- Yn mha le y mae y cludwyr ?*
- A oes cludydd yma ?*

If I take a ticket for — can I be allowed to stop at —, and then go on by another train?

How long does it take to reach —?

Will you find me a place?

Allow me to get in.

Can you find places for us all in the same carriage? We are three-four.

*Os cymeraf docyn am — a ganiateir i mi aros yn —, ac yna myn'd yn mlaen gyda cherbydres (train) arall?*  
*Pa hyd y cymer i gyraedd —?*  
*A wnewch chwi geisio lle i mi?*  
*Caniatewch i mi ddyfod i newn.*  
*A ellwch chwi gael lle i ni i oll yn y un cerbyd?* *Yr ydym yn dri-pedwar.*

Do we change carriages on the journey?

Where do we change carriages?

We change carriages at the next station, do we not?

We have not room enough.

Make room, if you please.

A little more room, if you please.

Will you sit next to the window?

May I open—shut—the window?

Will it be agreeable to you?

Do not move, pray.

Do not disturb yourself; we have room enough.

Can you tell me the name of this place—this town—house—church—village—castle?

Has the train stopped?

Does the train stop at —?

How long do we stop here?

Where is the station-master?

Where am I to send for my luggage?

We have travelled very quickly—very slowly.

What is the distance from here to —?

We wish to stop here until the next train; can we do so? We should be greatly obliged.

Will you allow us to leave the luggage in the office? We shall call for it soon.

Where can we leave our things until we return?

*A ydym yn newid cerbydau ar y daith?*

*Yn mha le yr ydym yn newid cerbydau?*

*Yr ydym yn newid cerbydau yn yr orsaф nesaf, onid ydym?*

*Nid oes genym ddigon o le.*

*Gwnewch le, os gwelwch yr dda.*

*Ychydig ychwaneg o le, os gwelwch yn dda.*

*A wnewch chwi eistedd yr agosaf at y ffenestr?*

*A allaf fi agror—cau—y ffenestr?*

*Fydd hynyn yn foddfaol i chwi?*

*Peidiwch symud, yr wyf yn deisyf arnoch.*

*Peidiwch aphonyddu eich hun; y mae genym ddigon o le.*

*A ellwch chwi ddweyd wrthyf enw y lle hwn—y dref hon—tŷ—eglwys—pentref—castell?*

*A yw y gerbydres wedi aros?*

*A yw y gerbydres yn aros yn —?*

*Pa hyd yr ydym yn aros yma?*

*Yn mha le y mae yr orsaф-feistr?*

*I ba le yr ydwyf i anfon am fy nghludgelf?*

*Yr ydym wedi teithio yn bur gyflym—yn bur araf.*

*Faint yw y pellder oddiyma i —?*

*Yr ydym yn dymuno aros yma hyd y gerbydres nesaf; a allun ni wneyd hynyn?* *Byddwn yn hynod ddiolchgar.*

*A wnewch chwi ganiatau i ni adael ein cludgelf (luggage) yn y swyddfa?*

*Bydd i ni aw am danynt yn fuan.*

*Yn mha le y gallwn adael ein pethau hyd ein dychweliad?*

What do you advise me to do?	<i>Pa beth gynghorwch fi i wneyd?</i>
At what time does the next train start?	<i>Pa amser y cychwyna y gerbydres (train) nesaf.</i>
How long have you been waiting? Since ten o'clock.	<i>Am ba hyd yr ydych wedi bod yr aros? Er deg o'r gloch.</i>

Where is the refreshment room?	<i>Yn mha le y mae yr ymborth-ystafell?</i>
Let me have some soup, if you please.	<i>Gadeuwch i mi gael peth cawl (soup), os byddwch cystal.</i>
A cup of coffee with milk—a cup of tea.	<i>Cwpanaid o goffï gyda llaeth—cwpanaid o dê.</i>
Some bread and butter—cakes—a glass of wine.	<i>Peth bara ac ymenyn—teisenau—glasiad o win.</i>
Have you any grapes—apples—pears—oranges?	<i>A oes genych rawnwin—afalau—perenau—eurafalau?</i>

## IV.

## COACH.

*Cerbyd.*

When does the coach start to —?	<i>Pa bryd y cychwyna y cerbyd i —?</i>
I wish to take a place in the coach to —.	<i>Dymunaf gael lle yn y cerbyd i —.</i>
What is the fare?	<i>Beth yw y cludlog (pris)?</i>
How many hours will it take to go?	<i>Pa sawl awr a gymer i ni fyned?</i>
Is there any room in the coach? Can I have a seat?	<i>A oes lle yn y cerbyd? A allaf fi gael eisteddle?</i>
Can I have a seat in the front?	<i>A allaf fi gael eisteddle yn y pen blaen?</i>
I prefer a place outside.	<i>Gwell genyf le oddiellan.</i>
I will take a place inside.	<i>Cymeraf le oddimewn.</i>
At what time does the coach reach Llanberis?	<i>Pa amser y cyrhaedda y cerbyd Llanberis?</i>
How much luggage am I allowed?	<i>Pa faint o gludgelfi (luggage) a ganiateir i mi?</i>
Is it too heavy?	<i>A ydyw yn rhy drwm?</i>
How much must I pay?	<i>Pa faint raid i mi datu?</i>
Will you send some one for my luggage?	<i>A wnewch chwi anfon rhyw un i gyrchu fy nghludgelfi (luggage)?</i>
Put them on the coach.	<i>Rhoddwch hwy ar y cerbyd?</i>
Is there not room for three persons?	<i>Onid oes yna le i dri o bersonau?</i>
Do we stop anywhere on the way for breakfast—dinner—supper, &c.	<i>A ydym yn aros yn rhywle ar y ffordd i gaelbrecwest—ciniau—swper, &amp;c.?</i>
Where shall we stop?	<i>Pa le yr arhoswn?</i>
What towns—villages—do we pass through?	<i>Pa drefi—pentrefi—y byddwn yn myned trwyddyt?</i>
Do we pass <del>the</del> —?	<i>A fyddwn yn myned trwy —?</i>
We have just passed it.	<i>Yr ydym newydd ei gadad.</i>

Where is the conductor?	<i>Pa le mae'r arweinydd?</i>
Which way do you go?	<i>Pa ffordd yr ydych yn myned?</i>
Which is the best road?	<i>Pa ffordd yw yr oraf?</i>
Is the road which passes through — the shortest?	<i>Ai y ffordd sydd yn myned trwy — yw y feraf?</i>
What is the distance from — to —?	<i>Faint yw y pellder o — i —?</i>
Are we far from —?	<i>A ydym yn mhell o —?</i>
How many miles from — to —?	<i>Pa nifer o filldiroedd o — i —?</i>
What is the name of this place?	<i>Beth yw enw y lle hwn?</i>
How long shall we stop here?	<i>Pa hyd y byddwn yn aros yma?</i>
Have we time to take anything?	<i>A oes genyw amser i gymeryd rhyw-beth?</i>
Do we remain the night at —?	<i>A ydym yn aros dros nos yn —?</i>
What hotel do you stop at?	<i>Yn mha westy y byddwch yn aros?</i>
When do we set off again?	<i>Pa bryd y byddwn yn cychwyn eto?</i>

## V.

## OMNIBUS—CAB.

Call me a cab.  
 Go and fetch a conveyance.  
 Coachman, drive me to — street,  
 number —.  
 Are you engaged?  
 Has the carriage come?  
 How much by the hour?  
 I engage you by the hour.  
 Look at your watch.  
 It is now ten minutes past one.  
 Take me first to —.  
 Call at the bookseller's, number three,  
 — street.  
 It is not here—go on a little further  
 —to number six.  
 Put me down at number —.  
 Turn to the left—to the right.  
 Take me to the — hotel—to the  
 — church.  
 It is further on, at the end of the  
 street.  
 Go on a little further; straight on.  
 Wait here.  
 Stop—stop here.  
 Move on faster—slower.  
 How much have I to pay?  
 Here is your fare, and something for  
 yourself.

*Hirgerbyd—Cab.*

*Gelwch am gab i mi.*  
*Ewch a cheiswch gerbyd.*  
*Cerbydwyr, gyrrwch fi i — street,*  
*rhif —.*  
*A ydych chwi yn ymrwymedig?*  
*A yw y cerbyd wedi dyfod?*  
*Pa faint wrth yr awr?*  
*Yr wyf yn eich llogi wrth yr awr.*  
*Edrychwch ar eich oriadur.*  
*Y mae yn awr yn ddeg munud wedi un.*  
*Cymerwch fi yn gyntaf i —.*  
*Gelwch ar y llyfrwerthwr, rhif tri,*  
*heol —.*  
*Nid ydyw yma—ewch ychydig yn*  
*mhellach—i rhif chwech.*  
*Rhoddwch fi i lawr wrth rhif —.*  
*Trowch i'r aswy—i'r deheu.*  
*Cymerwch fi i westy'r —, i eglwys*  
*—.*  
*Y mae yn mhellach yn mlaen, yn mhen*  
*yr heol.*  
*Ewch yn mlaen ychydig yn mhellach;*  
*yn syth yn mlaen.*  
*Aroswch yma.*  
*Aroswch—aroswch yma.*  
*Symudwch yn mlaen yn gyflymach—*  
*ara Fach.*  
*Pa faint sydd genyf i dalu?*  
*Dyma eich cluillog (fare), a rhywbedd*  
*i chwi eich hunan.*

Does this omnibus go to — ?	<i>A yw y cerbyd yma yn myn'd i — ?</i>
Is it full ?	<i>A yw yn llawn ?</i>
Is there any room ?	<i>A oes yna le ynddo ?</i>
How long shall I have to wait for the next ?	<i>Pa hyd raid i mi aros am y nesaf ?</i>
Do you pass near St. Pauls ?	<i>A ydych yn pasio yn agos i St. Pauls ?</i>
Where are we now ?	<i>Pa le yr ydym yn aur ?</i>
Will you put me down as near as you can to — at the corner of — street ?	<i>A wnewch chwi fy rhoddi i lawr mor agos ag y gellwch i — wrth gongl heol — ?</i>
Stop, if you please ; let me get down.	<i>Aroswh, os byddwch cystal ; gadewch i mi fyned i lawr.</i>
Tell the driver to stop.	<i>Dywedwch wrth y gyrwr am aros.</i>
Have you any change ?	<i>A oes genych newid ?</i>

## VI.

## ASKING THE WAY.

Will you show me the shortest way to — ?  
 Could you tell me if I am far from — street ?  
 How far is it to the next village ?  
 What direction must I take ?  
 How far is it from here to — ?  
 Is it near or far ?  
 Which way, then ?  
 Must I turn to the right, or to the left ?  
 And after that ?  
 Where does this street lead to ?  
 Take the first street to the left, and the second to the right.  
 Straight forward—to the right.  
 Can you tell me where Mr. C. lives ?  
 Where does he live ?  
 Can you give me the address—the number ?  
 I think I have taken the wrong street.  
 Which way am I to take ?  
 Must I cross the bridge ?  
 At the bottom of the court ?  
 On which side is it ?  
 On the other side—this side ?  
 Which is the most direct way ?—the shortest way ?

*Gofyn y ffordd.*

*A wnewch chwi ddangos i mi y ffordd syraf i — ?*  
*A ellwch chwi ddweyd wrthyf os ydwyf yn mhell o heol — ?*  
*Pa mor bell ydyw i'r pentref nesaf ?*  
*Pa gyfeiriad raid i mi gymeryd ?*  
*Pa mor bell ydyw oddiyma i — ?*  
*A ydyw yn mhell neu yn agos ?*  
*Pa ffordd, ynte ?*  
*Raid i mi droi i'r dde, ynte i'r aswy ?*  
*Ac ar ol hyny ?*  
*I ba le yr arweinia yr heol yma ?*  
*Cymerwch yr heol gyntaf ar yr aswy, a'r ail ar y dde.*  
*Yn syth yn mlaen—i'r dde.*  
*A ellwech chwi ddweyd wrthyf lle y mae Mr. C. yn byw ?*  
*Pa le y mae yn byw ?*  
*A ellwch chwi roddi i mi y cyfarwyddiad ?—y rhif ?*  
*Yr wyf yn meddwl fy mod wedi cymeryd yr heol chwith.*  
*Pa ffordd wyf i gymeryd ?*  
*Raid i mi groesi y bont ?*  
*Wrth waelod y cwrta ?*  
*Ar ba ochr y mae ?*  
*Ar yr ochr arall—yr ochr yma ?*  
*Pa un yw y ffordd fwyaf uniongyrchol ?—y ffordd feraf ?*

Will you conduct me there? I will pay you.	<i>A wnewch chwi fy arwain i yno?</i> <i>Talaf i chwi.</i>
Well then, go before, and I will follow.	<i>Wel ynte, ewch yn mlaen, a mi a ganlynaf.</i>
Let us walk fast.	<i>Gadewch i ni gerdded yn gyflym.</i>
Let us run.	<i>Gadewch i ni redeg.</i>
Where are you taking us?	<i>I ba le yr ydych yn ein cymeryd ni?</i>
I am much obliged; here is something for your trouble.	<i>Yr wyf yn dra diolchgar; dyma ryw-beth am eich trafferth.</i>
Where can we find a cab?	<i>Yn mha le y gallwn gael cab?</i>
Can I go to — in half an hour?	<i>A allaf fi fyned i — mewn haner awr?</i>

## VII.

SEEING  
PUBLIC BUILDINGS, &c.

Is there anything to be seen here?—there?	<i>Gweled Adeiladau Cyhoeddus, &amp;c.</i>
What churches—chapels—public buildings—are to be seen in this neighbourhood?	<i>A oes rhywbeth i'w wel'd yma?—acw?</i> <i>Pa eglwysi—capeli—adeiladau cyhoeddus—sydd i'w gweled yn y gymdogoeth yma?</i>
We have seen nothing yet; we have but just arrived in this town.	<i>Nid ydym wedi gweled dim eto; nid ydym ond newydd gyraedd i'r dref hon.</i>
Can I go to-day to —?	<i>A allaf fi fyned heddyw i —?</i>
Can we see the — to-day?	<i>A allwn ni weled — heddyw?</i>
What days is it open?	<i>Pa ddyddiau y mae yn agored?</i>
What time will it take to go there?	<i>Pa amser a gymer i fyned yno?</i>
Can I go there by the coach?	<i>A allaf fi fyned yno gyda'r cerbyd?</i>
We are strangers, and should like to see this institution.	<i>Dieithriaid ydym, a hoffem weled y sefydliad hwn.</i>
Can you show us this hospital?	<i>A ellwch chwi ddangos i ni y clafdy yma?</i>
How is this institution supported?	<i>Pa fod y cynhelir y sefydliad hwn?</i>
Is there any one to show us this church?	<i>A oes yma rhywun i ddangos i ni yr eglwys hon?</i>
This church is a fine building.	<i>Mae yr eglwys hon yn adeilad ardderchog.</i>
This chapel is in a good position.	<i>Mae y capel yma mewn sefyllfa ragorol</i>
These windows are pretty.	<i>Mae y ffenestri hyn yn brydferth.</i>
Is the door open?	<i>A yw y drws yn agored?</i>
Which door is open?	<i>Pa ddrws sydd yn agored?</i>
Can we ascend the tower?	<i>A allwn ni esgyn i'r tŵr?</i>
This is a fine view.	<i>Dyma olygfa ardderchog.</i>
At what hour are the services in this church?	<i>Ar ba awr y mae y gwasanaeth yn yr eglwys hon?</i>
Who preaches to-day?	<i>Pwy sydd yn pregethu heddyw?</i>

What is this building?	<i>Pa adeilad yw hwn?</i>
Whose house is this?	<i>Ty pwys yw hwn?</i>
Which do you mean?	<i>Pa un a olygwch?</i>
May we enter here?	<i>A allwn ni fyned i mewn yma?</i>
I see it from here.	<i>Yr wyf yn ei weled oddiyma.</i>
My sight is rather short.	<i>Mae fy ngolwg braidd yn fyr.</i>
I saw it the other day.	<i>Gwelais ef y dydd o'r blaen.</i>
The — is close by; is it not?	<i>Mae — yn agos yma; onid ydyw?</i>
Will you kindly show us the garden?	<i>A wnewch chiwi fod mor garedig a ddangos yr ardd i ni?</i>
Is it forbidden to walk on the grass?	<i>A yw yn waharddledig i gerdded ar y gwelltglas?</i>
Must I knock at the door?	<i>A raid i mi gurc wrth y drws?</i>
What is it called? What is this place called?	<i>Pa beth y gelwir ef? Pa beth y gelwir y lle hwn?</i>
These houses are very large.	<i>Mae y tai hyn yn fawr iawn.</i>
We have still many things to see.	<i>Mae genym eto lawer o bethau i'u gweled.</i>
Where is the —?	<i>Yn mha le y mae y —?</i>
What is the price?	<i>Pa faint yw y pris?</i>

## VIII.

## EATING, &amp;c.

We wish—I wish—to breakfast. Let us have breakfast directly.  
 We will take tea.  
 I prefer coffee.  
 Bring some boiling water.  
 I will take a cup of coffee with milk—a cup of coffee without milk.  
 Does not the water boil?  
 Bring us the tea-kettle.  
 A cup of tea, and one—two—of coffee.  
 Bring another cup of tea.  
 Give us some boiled eggs.  
 Bring me an egg.  
 These eggs are too hard.  
 A little more milk.  
 We want some more hot water.

The tea is not strong enough.  
 It is not good.  
 The tea is too strong.  
 Have you made the tea?  
 Do not make the coffee so strong.  
 Bring us some stale bread and butter.

## Buyta, &amp;c.

*Yr ydym yn dymuno—yr wyf fi yn dymuno—brecwesta. Gadewch i ni gael brecwast yn uniongyrchol.*  
*Ni a gymerwn dê.*  
*Gwell genyf goffi.*  
*Dygwch ddwfr berwedig.*  
*Cymeraf gwpanaid o goffi gyda llaeth —cwpanaid o goffi heb laeth.*  
*Onid yw y dwfr yn berwi?*  
*Dygwch y kettle i ni.*  
*Cwpanaid o dê, ac un—dwy—o goffi.*  
*Dygwch gwpanaid arall o dê.*  
*Rhoddwch i ni rai wyau wedi eu berwi.*  
*Dygwch i wi mi.*  
*Mae yr wyau hyn yn rhy galed.*  
*Ychydig yn ychwaneg o laeth.*  
*Mae arnom eisieu ychwaneg o ddwfr poeth.*  
*Nid yw y tê yn ddigon cryf.*  
*Nid yw yn dda.*  
*Mae'r tê yn rhy gryf.*  
*A ydych wedi gwneyd y tê?*  
*Peidiwch gwneyd y coffi mor gryf.*  
*Dygwch i ni hen fara ac ymenyn.*

I prefer the large loaf.  
Have you cold meat?  
Have you anything ready?  
What have you for dinner?  
What fish have you?  
Bring me a bottle of lemonade.  
Draw the cork.  
Have you good cheese?  
Bring some.  
That is enough, thank you; I have quite done.

No more.

The dinner is very good.  
What have we to pay?  
Here is the money.  
You may remove the things.  
Will you hand me the newspaper?

Bring a chair for this lady.  
Which do you prefer?  
Will you carve this turkey?  
Who will carve this?  
Shall I help you to some of this?  
Shall I send you a slice?  
Thank you; I will take a little more.

What can I offer you?  
Will you eat anything?  
Will you have some more?  
A little, if you please.  
What do you wish?  
What is this?  
Give us a bottle of wine.  
Here are some fine apples.  
Eat some, pray.  
You are very kind.  
No, thank you; I prefer eating a bunch of grapes.  
Nothing more, thank you.

*Gwell genyf y doorth fawr.*  
*A oes genych gig oer?*  
*A oes genych rywbeth yn barod?*  
*Pa beth sydd genych i giniaw?*  
*Pa bysgod sydd genych?*  
*Dygwch i mi botelaid o lemonade.*  
*Tynwch y corcyn.*  
*A oes genych gaws da?*  
*Dygwch beth.*  
*Dyna ddigon, diolch i chwi; yr wyf wedi cwbl ddarfod.*  
*Dim yn ychwaneg.*  
*Mae y ciniaw yn dda iawn.*  
*Pa faint sydd genym i dalu?*  
*Dyma yr arian.*  
*Gellwch symud y pethau.*  
*A wnewch chwi estyn y papyr newydd i mi?*  
*Dygwch gadair i'r foneddiges yma.*  
*Pa un a hoffwch?*  
*A wnewch chwi garfio y twrci hwn?*  
*Pwy a garfia hwn?*  
*A gaf si eich helpu a pheth o hwn?*  
*A gaf si anfon tafell i chwi?*  
*Diolch i chwi; mi a gymeraf ychydig, yn ychwaneg.*  
*Pa beth allaf gynyg i chwi?*  
*A wnewch chwi fwyta unrhyw beth?*  
*A gymerwch chwi ychwaneg?*  
*Ychydig, os gwelwch yn dda.*  
*Pa beth a ddymunwch?*  
*Pa beth yw hwn?*  
*Rhoddwch i ni botelaid o win.*  
*Dyma afalau braff yma.*  
*Bwytewch rai, yr wyf yn dymuno.*  
*Yr ydych yn bur garedig.*  
*Na, diolch i chwi; gwell genyf fwyta sypyn o rawnwin.*  
*Dim yn ychwaneg, diolch i chwi.*

## IX.

### SHOPS, &c.

What is the price of this?  
How much?  
How do you sell this?  
I cannot give so much.  
Is this the best you have?

### Siopau, &c.

*Pa beth yw pris hwn?*  
*Pa faint?*  
*Pa fodd yr ydych yn gwerthu hwn?*  
*Nis gallaf roddi cymaint.*  
*Ai hwn yw y goreu sydd genych?*

Give me a better one.  
 Tell me your lowest price.  
 It is too dear.  
 This is dearer.  
 Have you any cheaper?  
 What is the cheapest you have?  
 Can you not let me have it lower?

You ask too much.  
 I will not give more for it.  
 I will not give more.  
 It is very cheap—is it good?  
 It is good for nothing.  
 I gave three shillings for it.  
 Where can I get it?  
 Is it clean?—Will it wash?  
 This is too hard—too soft.  
 Is it quite new?  
 It is dirty—clean—strong—weak—  
     old—new—sweet—bitter—large—  
     small.  
 Is it quite straight?  
 How much do I owe you?  
 Here is the money. Is it right?  
 How much more?  
 You have to give me two-pence.  
 Will you change this for me?  
 Can you give me change?  
 Will you put this aside? I will call  
     for it to-morrow—in a day or two  
     —on Wednesday perhaps.

I cannot pay you now.  
 Here is my address.  
 Pack these things carefully.  
 I will put it in my pocket.  
 Will you send them to —?  
 I will call again.  
 I am come to pay you.  
 Have I paid you?  
 I have bought goods at this shop  
     before. Do you remember me?

Have you any new books?  
 Have you a copy in larger type?  
 Have you a second-hand copy?  
 I will take this one.  
 This will do.  
 I will take them with me.

*Rhoddwch i mi un gwell.*  
*Dywedwch wrthyf eich pris iselaf.*  
*Y mae yn rhy ddrud.*  
*Mae hwn yn ddrutach.*  
*A oes genych ddim rhatach?*  
*Faint yw y rhataf sydd genych?*  
*Onid ellwch chwi adael i mi ei gael*  
     *yn is?*  
*Yr ydych yn gofyn gormod.*  
*Ni roddaf ychwaneg am dano.*  
*Ni roddaf ychwaneg.*  
*Mae yn bur rhad—a yw yn dda?*  
*Nid yw yn dda i ddim.*  
*Rhoddais dri swllt am dano.*  
*Pa le y gallaf ei gael?*  
*A yw yn lân?—A wna ef olchi?*  
*Mae hwn yn rhy galed—rhy feddal.*  
*A yw yn holloc newydd?*  
*Y mae yn fudr—glan—cryf—gwan-*  
     *hen—newydd—melus—chwerw—*  
     *mawr—bach.*  
*A yw yn holloc uniawn?*  
*Pa faint sydd arnaf i chwi?*  
*Dyma'r arian. A ydynt yn iawn?*  
*Pa faint yn y cwaneg?*  
*Mae genych i roddi i mi ddwy geiniog.*  
*A wneuch chwi newid hwn i mi?*  
*A ellwch chwi roddi newid i mi?*  
*A ddodwch chwi hwn o'r neilldu? Mi*  
     *a alwaf am dano yfory—mewn*  
     *diwrnod neu ddau—ddydd Mercher*  
     *efallai.*  
*Nis gallaf dalu i chwi yn bresenol.*  
*Dyma fy nghyfeiriad.*  
*Paciuch y pethau hyn yn ofalus.*  
*Mi a'i dodaf ef yn fy llögell.*  
*A wneuch chwi eu hanfon i —?*  
*Mi a alwaf eto.*  
*Yr wyf wedi dyfod i dalu i chwi.*  
*A wyf wedi eich talu?*  
*Yr wyf wedi prynu eiddo yn y siop*  
     *hon o'r blaen. A ydych yn fy*  
     *nghofio i?*  
*A oes genych unrhyw lyfrau newydd-*  
     *ion?*  
*A oes genych gopi mewn llythyren*  
     *frasach?*  
*A oes genych gopi ail law?*  
*Mi a gymeraf yr un yma,*  
*Gwna hwn y tro.*  
*Mi a'u cymeraf i'm canlyn.*

Bind this book in strong calf, gilt edges.	<i>Rhwymwch y llyfr hwn mewn croen llo cryf, ymylon goreuredig.</i>
I want some writing paper—envelopes—ink.	<i>Y mae arnaf eisiau papyr ysgrifenu —envelopes—inc.</i>
This is too thick—thin.	<i>Mae hwn yn rhy dew—teneu.</i>
I want a pair of shoes.	<i>Mae arnaf eisieu par o esgidiau.</i>
I wish them with thick soles.	<i>Yr wyf yn eu dymuno gyda gwadnau tewion.</i>
They do not fit me.	<i>Nid ydynt yn fy ffitio i.</i>
These are too tight.	<i>Mae y rhai hyn yn rhy dyn.</i>
These will do exactly.	<i>Gwna y rhai'n y tro yn gywir.</i>
I want to buy some stockings.	<i>Y mae arnaf eisieu prynu hosanau.</i>
How much a pair?	<i>Pa faint y pâr?</i>
These are too small—too large.	<i>Mae y rhai hyn yn rhy fychain—rhy fawr.</i>
I want my hair cut.	<i>Mae arnaf eisieu tori fy ngwallt.</i>
Do not take much off.	<i>Na chymerwch lawer ymaith.</i>
Do you sell soap?	<i>A ydych yn gwerthu sebon.</i>
I will take two pounds.	<i>Mi a gymeraf ddau bwys.</i>
Give me a bottle of your best hair oil.	<i>Rhoddwch i mi gostrelaid o'ch olew gwalt goreu.</i>

## X.

## COMPLIMENTS, VISITING, &amp;c.

Good morning to you.	<i>Moesgyfarchiadau, Ymweliadau,</i>
Is he at home?	<i>&amp;c.</i>
Is Mrs. — at home.	<i>Bore da i chwi.</i>
Good day to you.	<i>A yw ef gartref?</i>
I can wait.	<i>A yw Mrs. — gartref?</i>
How are you?	<i>Dydd da i chwi.</i>
Are you well?	<i>Mi a allaf aros.</i>
How are all the family?	<i>Pa sut ydych chwi?</i>
Is Mrs. — quite well also?	<i>A ydych chwi yn iach?</i>
And how are you?	<i>Pa fodd mae'r holl deulu?</i>
This is a fine morning.	<i>A yw Mrs. — yn holol iach hefyd?</i>
This is a pleasant day.	<i>A pha fodd yr ydych chwi?</i>
It is a long time since I had the pleasure of seeing you.	<i>Dyma fore teg.</i>
I am glad to see you again.	<i>Dyma ddiwrnod hyfryd.</i>
When did you arrive?	<i>Y mae amser maith er pan y cefais y pleser o'ch gweled chwi.</i>
Take a seat.	<i>Yr wyf yn falch o gael eich gweled eto.</i>
What will you take?	<i>Pa bryd y cyrhaeddsoch?</i>
I am much obliged; I will not take anything.	<i>Cymerwch eisteddle—eisteddwch i lawr.</i>
Sit down, if you please, near the fire.	<i>Pa beth a gymerwch?</i>
	<i>Yr wyf yn dra diolchgar; ni chymeraf ddim byd.</i>
	<i>Eisteddwch i lawr yn agos i'r tân, os gwellwch yn dda.</i>

**Pray excuse me; I will sit here.**

*Dymunaf arnoch fy esgusodi; eistodd-af yn y fan yma.*

**When will you come to see me?  
Will you come and dine with us to-morrow?—on Monday next?**

*Pa bryd y deuwch i'm gweled i?  
A ddeuwch chwi i giniawa gyda ni yfory?—dydd Llun nesaf?*

**Will you come and take tea with me?**

*A ddeuwch chwi i gymeryd tê gyda mi?*

**Thank you.**

*Diolch i chwi.*

**I am sorry I cannot come.**

*Drwg genyf nas gallaf ddyfod.*

**I must go—I am in a hurry.**

*Rhaid i mi fyned—Yr wyf mewn brys.*

**Must you go?**

*Raid i chwi fyned?*

**I am sorry I must go, as I have an appointment.**

*Drwg genyff fod rhaid i mi fyned, trwy fod genyf ymrwymiad.*

**I shall always be glad to see you.**

*Bydd yn dda genyf eich gweled bob amser.*

**I hope to have an opportunity of returning your kindness.**

*Gobeithiaf y caf gyfleusdra i ddychwelyd eich caredigrwydd.*

**You are very kind.**

*Yr ydych yn bur garedig.*

**I am very sorry.**

*Y mae yn wir ddrwg genyf—Mae yn bur ofidus genyf.*

**I wish you success with all my heart.**

*Yr wyf yn dymuno llwyddiant i chwi gyda'm holl galon.*

**How is your mother?**

*Pa fodd y mae eich mam?*

**Is your sister better?**

*A yw eich chwaer yn well?*

**My compliments to your friend.**

*Fy moesgyfarchiadau at eich cyfaill.*

**Good night to you.**

*Nos dda i chwi.*

# MISCELLANEOUS PHRASES,\*

CLASSIFIED ACCORDING TO SUBJECTS.

## YMADRODDION AMRYWIOL,\*

WEDI EU DOSPARTHU YN OL Y TESTYNAU.

### I.

#### AFFIRMATION, AGREEMENT, &c.

*Cadarnhad, Cytundeb, &c.*

Yes. Certainly.

*Iē. Yn sicr.*

Indeed. No doubt. Undoubtedly.

*Yn wir. Dim amheuaeth. Diamheuol.*

Of course.

*Wrth gwrs.*

Oh yes !

*O ie !*

Yes, yes !

*Iē, ie !*

I assure you it is true.

*Sicrhaf chwi ei fod yn wirionedd.*

Exactly. Just so.

*Yn gywir. Yn hollol felly.*

It is true. It is but too true.

*Y mae yn wir. Mae yn rhy wir.*

It is true, I am sure.

*Y mae yn wir, yr wyf yn sicr.*

It is true, I assure you.

*Yr wyf yn eich sicrhau ei fod yn wir.*

I will answer for it.

*Bydd i mi ateb am dano.*

That is but too true.

*Mae hyny yn rhy wir.*

I believe so. I quite believe it.

*Yr wyf yn credu hyny. Yr wyf yn ei gwbl gredu.*

Nothing more true.

*Dim yn fwy gwir.*

I do not doubt it.

*Nid ydwyf yn ei ameu.*

I agree with you.

